

TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT: GWNEUD Y MWYAF O'R SECTOR

TAI RHENT PREIFAT

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig ar ran y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i'r sector tai rhent. Bydd yn cael ei ystyried yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2011.

Y Cefndir

Mae oddeutu 12% o'r stoc tai yn dai rhent preifat, ac mae'r sector hwn yn darparu tua 136,000 o gartrefi ar gyfer pobl ledled Cymru. Mae oddeutu 20,000 o'r cartrefi hyn yn dai amfeddiannaeth (HMOs) ac mae'r rhain yn darparu llety ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r crynodiad uchaf o HMOs mewn trefi a dinasoedd prifysgol ac mewn ardaloedd arfordirol lle mae adeiladau a oedd gynt yn adeiladau gwyliau wedi'u prynu er mwyn darparu llety rhent. Gall crynodiadau mawr o HMOs beri problemau ynddynt eu hunain, ac maent, yn aml, yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac ar amwynder ardaloedd a oedd gynt yn rhai preswyl yn bennaf.

Mae sector rhentu preifat cryf yn rhan hanfodol o farchnad dai sy'n gweithio'n dda. Yng Nghymru, mae'r sector rhentu preifat yn chwarae rôl hollbwysig o ran hyrwyddo mudoledd economaidd, gan gynnig hyblygrwydd a dewis i'r rheini sy'n dewis peidio â bod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, a chan ddarparu tai ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae'r dirywiad ariannol a welwyd yn ddiweddar wedi dwyn sylw hefyd at y ffaith y bydd gan y sector hwn rôl fwyfwy pwysig i'w chwarae yn y farchnad dai yn dyfodol, o ran darparu cartrefi ar gyfer pobl iau, ac o ran cyfrannu at gynyddu'r cyflenwad o gartrefi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddatblygu ac i gynnal sector rhentu preifat yng Nghymru ac ynddo gartrefi sy'n cael eu rheoli'n dda ac sydd mewn cyflwr da. Rydym yn cydnabod y cyfraniad y gall cartrefi rhent preifat ei wneud o ran helpu i fynd i'r afael â'r angen am dai, ac rydym hefyd yn cydnabod y budd ehangach a all ddeillio ohonynt.

Hoffai Llywodraeth y Cynulliad weld gwelliannau pellach yn y sector rhentu preifat. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau o ran ansawdd y cartrefi ac o ran y modd y cânt eu rheoli, yn ogystal â chymrwng helpu tenantiaid i fod yn ddefnyddwyr hyderus sy'n cael yr holl wybodaeth y mae ei angen arnynt. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, dichon y bydd yn rhaid wrth ragor o reoliadau, ac aethom ati'n ddiweddar i ymgynghori am y mater hwn. Mae'n bosibl hefyd y bydd gofyn addysgu a darparu gwybodaeth er mwyn dwyn sylw at yr hawliau sydd gan denantiaid ar hyn o bryd ac at y cyfrifoldebau y mae'n ddyletswydd ar landlordiaid i'w hysgwyo.

Mae pwysigrwydd y sector rhentu preifat yn cael ei adlewyrchu yn "Gwella Bywydau a Chymunedau", y Strategaeth Dai Genedlaethol. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gymryd camau pellach i wella'r rhan bwysig hon o'r farchnad dai yng Nghymru.

Yr Hyn a Wnaed Hyd Yma

Rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau eisoes i wella cyflwr tai rhent preifat ac i wella'r modd y cânt eu rheoli. Mae'r mesurau hyn yn gwella ac yn datblygu ar drefniadau cynharach i sicrhau bod tenantiaid yn gallu mwynhau cartrefi sydd wedi'u rheoli'n dda ac sydd mewn cyflwr da. Daeth hyn yn sgîl dadreoleiddio trefniadau'r Grant Adnewyddu Cartrefi.

Dyma rai o'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

(i) Y Cynllun Diogelu Blaendaliadau Tenantiaeth. Ers i'r Cynllun hwn ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2007, mae wedi diogelu 1.69 miliwn o flaendaliadau yng Nghymru a Lloegr. Roedd y blaendaliadau hyn yn werth cyfanswm o £1.626 biliwn.

(ii) Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai a phwerau gorfodi cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru sicrhau gwell safonau sylfaenol (Mehefin 2006);

(iii) Trwyddedu gorfodol ar gyfer y Tai Amfeddiannaeth (HMOs) hynny lle mae'r risg ar ei uchaf, ynghyd ag opsiwn i'r awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau trwyddedu ychwanegol ar gyfer HMOs lle mae'r risg yn is (Mehefin 2006);

(iv) Trwyddedu Dethol, i alluogi'r awdurdodau lleol i drwyddedu mathau eraill o eiddo rhent preifat (Hydref 2006);

(v) Dadreoleiddio'r hen system grantiau adnewyddu cartrefi

a oedd yn golygu bod yr awdurdodau lleol yn gallu cynnig ystod ehangach a mwy hyblyg o gymorth, gan gynnwys cymorth i landlordiaid (Gorffennaf 2002);

(vi) Cynllun Cenedlaethol Achredu Landlordiaid Cymru ar gyfer landlordiaid ac asiantaethau gosod (Tachwedd 2008); a

(vii) Fforymau Landlordiaid er mwyn gwella cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid ledled Cymru (yn dal i fynd rhagddynt ar hyn o bryd).

Mae cyflwyno'r **Cynllun Diogelu Blaendaliadau Tenantiaeth** yng Nghymru a Lloegr wedi diogelu tenantiaid yn y sector preifat ac wedi rhoi gwell sicrwydd i denantiaid a landlordiaid ynghylch sut y dylid ymdrin â blaendaliadau a datrys anghydfod. Mae rhedeg y cynllun hwn ar sail Cymru a Lloegr wedi gweithio'n dda.

Mae cyflwyno'r **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai**, ynghyd â **Thrwyddedu HMOs a Thrwyddedu Dethol**, wedi bod yn gyfle i godi safonau rheoli trwy gefnogi landlordiaid cyfrifol a chosbi'r rheini nad ydynt yn barod i fodloni'r safonau perthnasol.

O ganlyniad i **ddadroleiddio'r trefniadau ar gyfer y grant adnewyddu cartrefi**, mae'r awdurdodau lleol yn gallu rhoi cymorth i landlordiaid yn y sector preifat i'w helpu i wella'u heiddo neu i droi adeiladau eraill yn llety preswyl. Gellir cyplysu hyn ag amodau grant a allai gynnwys hawliau enwebu ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae enghreifftiau rhagorol o lwyddiant y dull hwn o weithredu i'w gweld yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Cymru wrth ddatblygu'r **Cynllun Cenedlaethol Achredu Landlordiaid**. Mae hefyd wedi cefnogi datblygu gwell cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid trwy sefydlu **fforymau landlordiaid** mewn ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol Achredu Landlordiaid, ynghyd â fforymau landlordiaid yn ardaloedd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol eisoes wedi gwella trefniadau cyfathrebu rhwng yr awdurdodau lleol, landlordiaid a thenantiaid yn y sector preifat. Mae wedi arwain at fanteision eraill hefyd o ran cyfleoedd hyfforddiant i landlordiaid a gwell systemau gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol.

Ymhlith y mesurau ychwanegol yr aethom ati i ymgynghori yn eu cylch yn ddiweddar yr oedd cofrestr genedlaethol o landlordiaid preifat, a rheoleiddio gorfodol ar asiantaethau gosod a rheoli tai, a hynny ar lefel Cymru a Lloegr. Cynigiwyd hefyd y dylai pob cytundeb tenantiaeth fod yn ysgrifenedig yn y dyfodol ac y dylid codi'r trothwy ar gyfer tenantiaethau byrddaliol.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd gennym ar gyfer y sector yng Nghymru, gan wneud hynny ar y cyd ag eraill sy'n gweithio yn y sector ac sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Cymru, y Gymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl a Shelter Cymru. Credwn y byddai'r mesurau hyn wedi adeiladu ar y rheini a gyflwynwyd gennym eisoes.

Adolygiad Rugg

Cafodd Adolygiad Rugg o'r Sector Rhentu Preifat yn Lloegr ei gyhoeddi yn 2008, ac roedd ynddo nifer o argymhellion ("cyfeiriadau polisi") a oedd â goblygiadau uniongyrchol i'r sector rhentu preifat yng Nghymru. Yn eu plith yr oedd cynllun cofrestru gorfodol ar gyfer pob landlord a mwy o reoleiddio ar asiantaethau gosod. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb ffurfiol i'r adolygiad ym mis Mai 2009, a hynny ar ffurf papur ymgynghori.

Argymhellodd Adolygiad Rugg hefyd y dylid mabwysiadu system achredu ehangach ei chwmpas ar gyfer landlordiaid ac asiantaethau gosod, ac y dylid hefyd ailedrych ar y meini prawf ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau trwyddedu dethol sydd yn Neddf Tai 2004, gan ehangu'r meini prawf hynny, o bosibl. Mae gennym eisoes gynllun Cymru gyfan ar gyfer achredu landlordiaid a gafodd ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2008. At hynny, mae'r meini prawf ar gyfer trwyddedu dethol eisoes yn ehangach yng Nghymru, ac fe'u cyflwynwyd drwy ddeddfwriaeth ym mis Hydref 2006. O'r herwydd, nid yw pob un o'r argymhellion yn Adolygiad Rugg yn berthnasol i'r sector rhentu preifat yng Nghymru.

Rhagwelwyd y byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol, a hynny ar lefel Cymru a Lloegr, er mwyn gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn Adolygiad Rugg. Y bwriad oedd bwrw ymlaen â'r tri chynnig yn ymwneud â chofrestru landlordiaid, rheoleiddio asiantaethau gosod a chytundebau tenantiaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Glymblaid newydd y DU wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Nid yw'r penderfyniad hwn yn golygu bod llai o werth i'r sylwadau a'r cyfraniadau a ddaeth i law yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Nid yw ychwaith yn ein hatal rhag cymryd camau pellach yng Nghymru, ond mae angen i ni ystyried yn ofalus sut y gellid bwrw ymlaen â'r cynigion. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos yn glir bod angen mwy o waith ar y cynigion. Mae'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi newid ei safbwynt yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried sut orau i gyrraedd y nod yn hyn o beth.

Effaith Diwygio Budd-dal Tai

Mae Llywodraeth Glymblaid y DU wedi newid y system Budd-dal Tai a'r system budd-daliadau lles yn fwy cyffredinol, a disgwylir i'r newidiadau hyn gael effaith sylweddol ar y sector rhentu preifat ledled y DU.

Bydd y Lwfans Tai Lleol yn cael ei gyfyngu bellach i'r gyfradd sy'n cael ei thalu ar gyfer eiddo 4 ystafell wely. Ar hyn o bryd, y gyfradd uchaf a delir yw'r gyfradd ar gyfer eiddo 5 ystafell wely. Bydd y newidiadau yn effeithio ar y bobl hynny sy'n cael Budd-dal Tai ar hyn o bryd unwaith y daw hi'n amser i adolygu eu cais am fudd-dal tai, sef blwyddyn ar ôl eu cais blaenorol fel arfer. Ar ôl mis Ebrill 2011, dim ond y gyfradd ar gyfer eiddo 4 ystafell wely y bydd gan hawlwr newydd yr hawl iddi, hyd yn oed os yw maint eu teuluoedd yn golygu bod angen mwy na 4 ystafell wely arnynt. Bydd hyn, yn ôl pob tebyg, yn arwain at ganlyniadau difrifol o ran cartrefi sy'n orlawn, a gall hyn gael effaith negyddol ar iechyd ac ar les plant, ac ar eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cymryd y bydd landlordiaid yn gostwng eu rhenti er mwyn adlewyrchu'r Lwfansau Tai Lleol diwygiedig. Fodd bynnag, os na wnânt hynny, mae'n bosibl mai dyma fydd yn digwydd:

mae'n bosibl y bydd tenantiaid yn symud i gartrefi o ansawdd is ym mhen isaf y farchnad rentu er mwyn arbed arian;

mae'n bosibl y bydd mwy o bwysau ar dai cymdeithasol gan fod y dewis hwn, yn draddodiadol, yn cael ei ystyried yn un mwy costeffeithiol;

mae'n bosibl y bydd pobl yn dewis aros yn eu cartrefi eu hunain ac yn ceisio aildrefnu gwariant yr aelwyd. Gallai hyn gael effaith andwyol

ar blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel, o ran eu hiechyd, eu lles a'u datblygiad cyffredinol;

mae'n bosibl y bydd tenantiaid yn gadael i ôl-ddyledion rhent gynyddu. Gallai hynny olygu y byddant mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi;

mae'n bosibl y bydd tenantiaid yn chwilio am ffyrdd eraill o wneud iawn am ddiffyg arian. Er enghraifft, darparwyr benthyciadau ariannol, a gallai hyn arwain at amgylchiadau ariannol fwyfwy anodd.

Os yw landlordiaid yn penderfynu eu bod yn barod i dderbyn rhenti is, gallai hynny olygu y byddant yn llai parod i wario arian ar wella'r eiddo, gan gynnwys, er enghraifft, gosod systemau gwresogi mwy effeithlon.

Dichon y bydd y newidiadau'n arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. O ran Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, mae'n bosibl na fydd yr awdurdodau lleol yn gallu darparu arian cyfatebol yn sgil gostyngiadau yn eu cyllidebau cyffredinol oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at fwy o bwysau ar yr awdurdodau lleol o ran costau llety gwely a brecwast, ac arwain hefyd at fwy o ddibyniaeth ar lety dros dro ac at niferoedd uwch o bobl ddigartref.

Digartrefedd

Mae ein Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd yn canolbwyntio ar gamau ataliol ac ar ymyrryd yn gynnar. Mae'n cynnwys gweithredu i ddatblygu rôl y sector rhentu preifat er mwyn diwallu anghenion pobl a fyddai'n ddigartref fel arall. Mae ynddo hefyd nodau dir ar gyfer gwasanaethau cyngori a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai lle y bo'u hangen. Mae'r Cynllun yn disgwyl yr awdurdodau lleol i gydweithio â'r sector i hyrwyddo cyfleoedd tai ychwanegol ar gyfer pobl agored i niwed, gan roi cymorth a chymhellion i landlordiaid gynnig tai iddynt.

Mae'r sector rhentu preifat yn darparu cyfleoedd tai mewn llawer o gymunedau lle nad oes tai cymdeithasol ar gael. Mae gwasanaethau cyngori'r awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn canolbwyntio fwyfwy erbyn hyn ar roi cyngor i bobl agored i niwed am yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt o ran tai, gan gynnwys y sector rhentu preifat. Mae'r sector hwn yn darparu tai y mae dirfawr eu hangen er mwyn i'r awdurdodau lleol fedru cyflawni'u dyletswyddau mewn perthynas â digartrefedd, a hynny o ran darparu llety dros dro a llety parhaol fel ei gilydd.

Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys gwaith ar hyrwyddo mynediad i'r sector drwy asiantaethau gosod cymdeithasol a chynlluniau bond. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn annog cynlluniau bond ac asiantaethau gosod cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd i roi ystod eang o gyngor a chymorth i bobl y mae angen mynediad i'r sector arnynt.

Mae deunaw o gynlluniau bond wedi'u sefydlu drwy'r rhaglen grantiau digartrefedd. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi gwarant i'r landlord yn erbyn unrhyw golledion oherwydd difrod neu ôl-ddyledion rhent. Mae'r galw ar adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn talu am hawliadau sy'n gysylltiedig â bondiau wedi mwy na dyblu er 2006/7, er mai dim ond mewn nifer bach o'r cynlluniau y mae'r cynnydd hwn i'w weld. Mae swyddogion yn cydweithio â'r prosiectau hyn i reoli'r cynnydd hwn yn yr hawliadau.

O'r arian a gafodd ei neilltuo yn 2010/11 er mwyn atal digartrefedd, darparwyd swm o £210,000 i gynorthwyo i ddatblygu pedwar cynllun gosod cymdeithasol ar draws ardal wyth awdurdod lleol yng Nghymru. Mae cymorth wedi'i ddarparu eisoes er mwyn datblygu chwe chynllun gosod cymdeithasol arall, ac mae'r rhain yn gweithio'n uniongyrchol gyda landlordiaid i osod eiddo yn y sector i bobl agored i niwed.

Y Camau sy'n cael eu Cymryd ar Hyn o Bryd/Cynlluniau at y Dyfodol

Fel y nodir ym mharagraff 15 uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar hyn o bryd gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector ac sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen weithredu eang ei chwmpas i roi strategaeth dai genedlaethol ar waith. Mae nifer o faterion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn y cyd-destun hwn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu mwy ar y sylfaen dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r sector rhentu preifat. Mae nifer o gwestiynau y mae angen eu hystyried ymhellach wedi codi o ganlyniad i'r gwaith a wnaed hyd yma, a gellir eu categorio fel a ganlyn:

"DIOGELU DEFNYDDWYR"

(i) Sicrwydd deiliadaeth – a oes angen newid y trefniadau deiliadaeth? e.e. newid y rheolau'n ymwneud â Thenantiaethau Byrddaliol Sicr etc.

(ii) Gorfodi – a ddylai fod gan yr awdurdodau lleol ragor o bwerau neu ai dim ond rhagor o staff sydd ei angen arnynt er mwyn gweithredu'r pwerau sydd eisoes yn bod?

(iii) Problemau a'u heffaith ar unigolion – sut y dylid diogelu tenantiaid/landlordiaid rhag yr hyn y mae pobl eraill yn ei wneud, gan gynnwys tenantiaid/asiantaethau gosod sy'n "diflannu" a landlordiaid nad ydynt yn cadw at eu haddewidion o ran atgyweirio, troi pobl allan o'u cartrefi er mwyn talu'r pwyth yn ôl etc?

(iv) Datrys anghydfod, cyfryngu a dewisiadau eraill llai costus ar gyfer tenantiaid. Beth ellir ei ddysgu o'r Alban a Phanel Tai'r Sector Preifat yno, ac a fyddai'n gweithio mewn rhannau eraill o'r DU?

"POLISI'R LLYWODRAETH"

- (v) A ddylid cyflwyno cynllun cofrestru gorfodol ar gyfer landlordiaid?
- (vi) A ddylid rheoleiddio asiantaethau gosod?
- (vii) Polisiau gorfodi – beth fyddai ei angen mewn ymateb i'r materion uchod?
- (viii) Materion cynllunio?
- (ix) Adnoddau, gan gynnwys effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.
- (x) Effaith y newidiadau i bolisi'r DU ar fudd-dal tai a'r newidiadau ehangach i'r system budd-daliadau lles.

"MYNEDIAD I'R SECTOR"

- (xi) Fforddiadwyedd – o ran lefelau rhenti ac o ran bod morgeisi ar gael i landlordiaid.
- (xii) Rôl a chyfrifoldeb cymdeithasau tai mewn perthynas â lesio.
- (xiii) Cyflwr y stoc – sut mae gwella safon y llety

"ADDYSG/HYFFORDDIANT"

- (xiv) Codi ymwbyddiaeth/addysgu am rolau, cyfrifoldebau a hawliau landlordiaid a thenantiaid.
- (xv) Rhannu'r arferion gorau ar draws Cymru a'r DU.
- (xvi) Rhagor o ymchwil i'r problemau ac i'r hyn sy'n eu hachosi. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn llywio'r atebion ac yn fodd i ddod o hyd i ragor o dystiolaeth am yr hyn sy'n helpu i sicrhau bod arferion da yn cael eu mabwysiadu.

Y Camau Nesaf

Wrth i Lywodraeth Cymru ystyried yr hyn y dylid rhoi blaenoriaeth iddo ac awgrymiadau am y camau y dylid eu cymryd yn y dyfodol, bydd yn gwneud hynny ar sail y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyd â sefydliadau eraill. Mae'n debyg y bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cyflwyno tua'r un adeg ag y bydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn cyhoeddi ei adroddiad ef, a bydd gan y corff o wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny ran i'w chwarae wrth benderfynu ar bolisiau ac ar gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Bydd gallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth bellach yn y sector yn dibynnu nid yn unig ar drefniadau cydweithio effeithiol gydag Adrannau Whitehall, ond hefyd ar ganlyniadau'r Refferendwm ar Bwerau Ychwanegol ym mis Mawrth 2011.

Casgliad

Mae'r papur hwn wedi dwyn sylw at y rôl bwysig sydd gan y sector rhentu preifat i'w chwarae o ran diwallu'r angen am dai yng Nghymru yn y dyfodol. Gan adeiladu ar grynodedb o'r gwaith a wnaed hyd yma, mae'n amlinellu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd â sefydliadau eraill ac mae hefyd yn ymdrin â'r materion ehangach sy'n cael eu hystyried. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn gwneud cyfraniad pwysig a fydd yn llywio polisiau a chymau gweithredu yn y dyfodol.